***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 1327 (Cy. 293)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *20 Tachwedd 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *23 Tachwedd 2020* |
| *Yn dod i rym - -* | *18 Rhagfyr 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 19(3) a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

(**1**) 2002 p. 32. Diwygiwyd adran 210(7) gan adran 21(3) o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (mccc 2). Gweler adran 212(1) am y diffiniad o "regulations".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).